

# Trydydd Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2020

Yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ar gyfer y cyfnod  
1 Awst 2019 hyd 31 Gorffennaf 2020

## 1 RHAGYMDRODD

Sefydodd Mesur y Gymraeg (Cymru) fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar rai sefydliadau penodol i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6). Nod y Safonau yw

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ynglŷn â'u dyletswyddau o ran y Gymraeg
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg ynglŷn â'r gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau'n golygu na ddylai sefydliadau yng Nghymru drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ers 1 Ebrill 2018 mae dyletswydd statudol ar Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y nodir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd ar 29 Medi 2017. Mae Safonau'r Gymraeg yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Coleg.

Yn unol â gofynion y Safonau, rhaid i'r Coleg gynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r modd y mae'r Coleg wedi cydymffurfio â'r Safonau. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad dim hwyrach na 6 mis wedi diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Awst 2019 a 31 Gorffennaf 2020.

Mae'r materion y mae'n rhaid adrodd arnynt yn cynnwys:

- Sut y mae'r Coleg wedi cydymffurfio â'r safonau yr oedd dyletswydd arnom i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno (fesul dosbarth safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu);
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu);
- Sgiliau Cymraeg cyflogeion;
- Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gynigiwyd;
- Nifer y staff sy'n gwisgo bathodyn 'Iaith Gwaith' ar ddiwedd y flwyddyn ariannol;
- Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd a gafodd eu categorio yn ôl gwahanol ofynion parthed sgiliau yn y Gymraeg.

Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru o 31 Ionawr 2021.

### 1.1 Nodyn Parthed Pandemig Covid-19

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod pan ddaeth y Pandemig Covid-19 yn ffactor fawr o ran llywodraethu, gweinyddu, dysgu, addysgu a bywyd cyhoeddus Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Ym mhob elfen bron bu'n rhaid addasu arferion gweithio'r Coleg, weithiau yn gyflym, a gyda rhai cyfyngiadau cyd-destunol. Trwy gydol y cyfnod hwn mae CBCDC wedi ymdrechu i sicrhau bod ei rwymedigaethau yn cael eu cynnal a'u cyflawni mewn modd amserol, gan gofio y bydd gofynion

Llywodraeth parthed iechyd a diogelwch yn ystod pandemig, a gofynion penodol y cyd-destun Covid-19 sy'n newid yn gyson, weithiau'n creu tensiwn gyda'i ofynion statudol mewn meysydd eraill, ac yn aml gydag anghenion a dymuniadau ei randdeiliaid.

I'r perwyl hwn, mae CBCDC yn adrodd y canlynol:

- Er bod y Coleg wedi bod ar gau i'r cyhoedd, mae ei wasanaethau derbynfa gyhoeddus wedi parhau'n ddwyieithog, gan gynnwys gwasanaeth dros y ffôn a thrwy e-bost. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl sicrhau bod elfen derbynfa mynediad dyddiol myfyrwyr a staff i'r adeilad (gan gynnwys gwiriadau tymheredd dyddiol) wedi bod ar gael yn ddwyieithog bob amser.
- Gosodwyd arwyddion a chanllawiau cyfeiriad yn yr adeilad, gan gynnwys cyngor ar gadw pellter cymdeithasol, yn ddwyieithog;
- Roedd gwybodaeth ac arwyddion yn ymwneud â phrofi am Covid-19 ar gael yn ddwyieithog.
- Darparwyd deunydd cyfathrebu i randdeiliaid yn ddwyieithog yn unol â'n rhwymedigaethau, ac eithrio yn yr achosion hynny lle'r oedd pwysau amser a'r angen i gyfathrebu ar unwaith yn ffactor liniarol.

## 2 LLYWODRAETHU A MONITRO

### 2.1 Rheoli'r Polisi Iaith Gymraeg a Chydymffurfiad

Grŵp Llywio Iaith Gymraeg y Coleg, a arweinir gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Gweithrediadau, sydd â chyfrifoldeb rheoli dros Bolisi Iaith Gymraeg y Coleg. Yn ystod Tymor yr Haf 2020, ac fel rhan o adolygiad cyffredinol o bwyllgorau a grwpiau yn CBCDC, cryfhawyd y Grŵp Llywio, ac erbyn hyn yn ogystal ag adrodd yn uniongyrchol i'r Uwch Dîm Rheoli, mae rhwymedigaeth arno i adolygu a monitro gweithgareddau pwyllgorau a grwpiau eraill.

### 2.2 Monitro

Bydd y Grŵp Llywio yn cyfarfod bob tymor i adolygu cydymffurfiad parhaus â'r Safonau. Mae gweithgarwch monitro arall yn cynnwys archwiliadau rheolaidd o'r adeiladau a'r arwyddion, gwasanaethau ymwelwyr a deunydd cyfathrebu.

## 3 CYDYMFFURFIAD

### Sut mae'r Coleg wedi cydymffurfio â'r Safonau

Mae llawer o adnoddau a chanllawiau wedi'u darparu i staff CBCDC ar ei fewnwyd 'Hyb CBCDC'.

Drwy ei Galendr Pwyllgorau, cyfarfodydd staff a thrafodaethau un i un rheolaidd, caiff aelodau staff eu hatgoffa'n barhaus am ofynion cydymffurfiad â'r Safonau mewn perthynas â'u gweithgareddau. Caiff ymatebion i gwestiynau neu bryderon eu hystyried ar sail ad hoc, er mwyn cefnogi'r adnoddau sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cydymffurfiodd y Coleg â'r dosbarthiad safonau dynodedig yn y ffyrdd canlynol:

#### 3.1 Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

- 3.1.1. Mae pob gohebiaeth i'r holl staff a/neu fyfyrwyr yn ddwyieithog.
- 3.1.2. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd yn bennaf yn Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, gofynnwyd i gyfranogwyr a wahoddwyd i Ddiwrnodau Agored rhithwir yn ystod y cyfnod hwn nodi dewis iaith ac roedd staff a myfyrwyr ar gael i sgwrsio ac ateb cwestiynau yn Gymraeg ar alw.
- 3.1.3. Mae CBCDC wedi comisiynu LfB Cymru Cyf i ddarparu gwasanaethau Cyfieithu Gymraeg ac mae wedi sefydlu pwynt cyswllt canolog i gasglu deunyddiau i'w cyfieithu'n broffesiynol. Comisiynwyd Testun a Cymen i ddarparu gwasanaethau cyfieithu fel rhan o'r wefan.
- 3.1.4. Ym mis Tachwedd 2019, ail-lansiodd CBCDC ei wefan, sydd nawr yn ddwyieithog.
- 3.1.5. Yn ychwanegol at y wefan ddwyieithog, mae Datganiadau Ariannol CBCDC (Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon) hefyd ar gael erbyn hyn.

#### 3.2 Safonau Lluio Polisiâu

- 3.2.1. Mae CBCDC wedi disodli ei hen Bolisi Iaith Gymraeg gyda Pholisi Gweithredu Safonau'r Gymraeg (ar gael ar ein gwefan), sy'n ceisio egluro sut y cedwir at Safonau'r Gymraeg yn ymarferol. Mae'r polisi'n cyfeirio at ddogfennau gweithdrefnol eraill sy'n cael eu diwygio'n gyson, yn ogystal â manteisio ar y berthynas gyda Phrifysgol De Cymru, ei rhiant gorff. O ran rhai polisiâu penodol, yn bennaf Rheoli Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch, dylid nodi bod CBCDC yn parhau wedi ymrwymo i wasanaethau Prifysgol De Cymru.

3.2.2. Yn ystod y cyfnod adrodd, cyhoeddodd CBCDC ei Gynllun Strategol diwygiedig, sy'n egluro safle'r Coleg fel Conservatoire Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys ei iaith a'i ddiwylliant.

3.2.3. Ni roddwyd ystyriaeth i unrhyw bolisiau penodol eraill yn ystod y cyfnod adrodd.

### 3.3 Safonau Gweithredu

3.3.1. Mae'r canlynol yn enghraifft o'r adnodd sydd ar gael i staff ar Hyb CBCDC (mewnwyd):

HUB / HWB ASIMUT MOODLE OFFICE 365 LIBRARY GO TO... ENGLISH (ENGLISH)

- Correspondence
- Meetings
- Out of Office Replies
- Signage
- Telephone Calls
- Welsh Speakers

## WELSH LANGUAGE STANDARDS

### Welsh Language Standards

The Welsh Language Standards are a set of legally binding requirements that aim to improve the bilingual services that the public, students and staff can expect to receive from the College. The Standards establish what our responsibilities are in providing these services, ensuring that the Welsh language is not treated any less favourably than the English language. The Standards come into force on 1 April 2018.

### Guiding Principles

- Individuals have the right to deal with us in Welsh.
- When material is produced in both Welsh and English, the Welsh language must not be treated less favourably than the English language.
- Welsh language material should be of an appropriate quality and standard.

[View a copy of the Welsh Language Standards issued to the College.](#)

If you have any questions regarding the Standards, please contact one of the following members of staff.

3.3.2. **Nifer yr aelodau staff sy'n gwisgo bathodyn 'Iaith Gwaith' ar ddiwedd y flwyddyn ariannol**

Rhoddir bathodynau 'Iaith Gwaith' i bob aelod staff sydd wedi nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl (cyfanswm o 17) a gellir gwneud cais am fathodyn drwy gysylltu â'r cydlynwyr neu'r Adran Farchnata.

Mae nifer o aelodau staff yn gallu cynnig gwasanaethau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog oherwydd cynnydd yn eu hyder a datblygiad eu sgiliau.

### 3.4 Safonau Cadw Cofnodion

#### 3.4.1. Cofnodion o allu ieithyddol staff

Mae CBCDC wedi cynnal arolwg llawn a chynhwysfawr o sgiliau iaith Gymraeg yn y gorffennol.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gofynnwyd i aelodau staff newydd nodi eu gallu o ran y Gymraeg.

Yn ychwanegol at y ffigurau a adroddwyd yn flaenorol, mae 2 aelod pellach a newydd o'r Staff Cefnogi wedi nodi rhuglder yn y Gymraeg. Mae'n werth nodi apwyntiad Cyfarwyddwr Cerddoriaeth newydd sy'n siarad Cymraeg yn rhugl.

Ni chyflawnwyd y dyhead a gyhoeddwyd i gynnal arolwg llawn diwygiedig o gymwysterau aelodau staff o ran y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd, yn bennaf oherwydd yr ymdrech a'r adnoddau a neilltuwyd i reoli'r pandemig. Mae arolwg diwygiedig yn cael ei ddatblygu ar gyfer y cyfnod adrodd presennol. Fodd bynnag, gweler yr hyfforddiant (3.4.3 isod).

#### 3.4.2. Nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredol)

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r Weithdrefn Cwynion i'w gweld ar wefan CBCDC.

#### 3.4.3. Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gynigiwyd

Yn ystod Blwyddyn Academaidd 2019/20, mynychodd 15 aelod staff (5 aelod staff academaidd, 10 aelod staff cefnogi) y dosbarth cyflwyniad i'r Gymraeg, a mynychodd 4 aelod staff (y 4 ohonynt yn aelodau staff academaidd) y dosbarth Cymraeg uwch.

Er na fu'n bosibl cynnal arolwg llawn o'r staff yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r adnodd a fuddsoddwyd mewn datblygu cyfleusterau dysgu ac addysgu ar-lein wedi gwella cyfleoedd hyfforddiant i staff. O ganlyniad i alwad i fynegi diddordeb ym mis Mehefin 2020 gwelwyd cynnydd sylweddol yn y ceisiadau am hyfforddiant, yn bennaf gan staff cyswllt CBCDC o fewn y proffesiynau celfyddydau perfformio.

#### 3.4.4. Swyddi newydd a swyddi gwag

Yn ystod y cyfnod adrodd hysbysebwyd 23 o swyddi, gydag 1 ohonynt â'r Gymraeg yn ofynnol, ac 11 â'r Gymraeg yn ddymunol.

## 4 GWYBODAETH BELLACH

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r adroddiad blynyddol neu unrhyw agwedd ar gydymffuriad Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Safonau'r Gymraeg, cysylltwch ag:

Adran Marchnata a Chyfathrebu  
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru  
Maes y Castell  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3ER

[cymraeg@cbcddc.ac.uk](mailto:cymraeg@cbcddc.ac.uk)